



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Gorff 2013
Rhifyn 198

Oedfaon y Sul

7 Gorff - Bore: **Gweinidog (Cymun)**
Hwyr (5pm): **Uno yn Salem**

14 Gorff - Bore: **Mr Richard Parry Jones**
Hwyr: **Miss Anna jane Evans**

21 Gorff - Bore a Hwyr: **Gweinidog** -
Croesewir ymwelwyr o Lydaw yn oedfa'r bore a
byddant yn cyfrannu i'r gwasanaeth.

28 Gorff - Bore a Hwyr: **Y Parchg W R Williams**

4 Awst - Bore a Hwyr: **Uno yn Salem**

Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf: Trip yr Ysgol Sul i Sŵ Caer
(Manylion gan Mrs Ann Llywelyn Williams (674849))

Am newyddion, gwybodaeth a lluniau gweler
tudalen Eglwys Seilo ar

www.henaduriaetharfon.org



Am Eiliad

Bu gwylio Andy Murray yn ennill pencampwriaeth Wimbledon eleni yn bleser llwyr. Tipyn o gamp yn erbyn dewin y cwrt tenis, Novoc Djocovik, a hynny mewn cwta dair 'set'. Roedd yr awyrgylch yn drydannol a miloedd wedi ymgynnull y tu mewn a'r tu allan i'r Cwrt Canol yn hybu Andy ymlaen i fuddugoliaeth. Rhaid cyfaddef 'mod i'n eitha cenfigennus o'r rhai gafodd sawru'r awyrgylch a bod yn dystion i'r digwyddad hanesyddol hwn.

Cofiwn eiriau Andy Murray ar yr un cwrt union flwyddyn yn ôl pan ddaeth yn ail i Roger Federer 'Well,' meddai 'I'm getting there'. Roedd ar y ffordd, a chafodd flwyddyn hynod o lwyddiannus yn ennill y Fedal Aur yn y Gemau Olympaidd, Twrnament Agored yr Unol Daliaethau, ac erbyn hyn pencampwriaeth Wimbledon. Mae John McEnroe eisoes yn proffwydo y bydd Andy Murray yn ennill o leia chwe pencampwriaeth arall yn ystod y blynyddoedd nesa.

Un peth sy'n amlwg wedi newid ym mhattrwm chwarae Andy Murray yn ddiweddar yw ei agwedd. Cofiwn fel y byddai'n colli ei limpyn ac yn caniatáu i emosiwn lywio'r gêm, ac yn amlach na pheidio colli fyddai pendraw peth felly. Roedd ei hunan-ddisgyblaeth yn amlwg yn ystod y pencampwriaethau eleni, ac heb os nac oni bai bu hynny'n gymorth iddo gyrraedd y brig. Tra'n cael ei gyfweld ar y cyfryngau drannoeth ei fuddugoliaeth, dywedodd hyn mewn ymateb i gwestiwn ar ei allu i reoli ei natur danllyd: "I've learnt during these past few years that you can't win those games worrying about what's happened in the past." Gellid cymhwysu'r geiriau hynny i sawl sefyllfa!

Cyfeirio at y gemau unigol oddi mewn i 'set' oedd Andy Murray ynddo, a'r duedd oedd ganddo i wylltio a chwyno pan na fyddai petha'n mynd o'i blaid. Bu hynny'n faen tramgwydd iddo dro ar ôl tro wrth i ryw ddigwyddiad anffodus mewn un gêm beri iddo fethu canolbwyntio ar y gêm nesa. Mae mor hawdd gadael i'r gorffennol lywio'r presennol. Gwn am sawl sefyllfa drist lle mae rhyw ddigwyddiad o'r gorffennol wedi taflu cysgod tywyll dros y presennol, a chanlyniad hynny ydi drwgdeimlad a chasineb, cenfigen a ffrwgwd. Nid yw'r Eglwys, hithau, wedi bod yn rhydd oddi wrth hualau'r gorffennol, ac nid oes raid edrych ymhell i sylweddoli canlyniadau hynny.

Dau o eiriau mawr y Testament Newydd ydi 'Maddeuant' ac 'Edifeirwch', ac ymhlyg yn y naill a'r llall y mae llawenydd yr ail gyfle, y dechrau newydd sy'n golygu gollwng gafael ar ffaeledau a chamgymeriadau'r gorffennol a mynd ymlaen yn hyderus i'r dyfodol. Dyma ddywed Duw yn Llyfr y Proffwyd Eseia:

"Peidiwch â meddwl am y pethau gynt, peidiwch ag aros gyda'r hen hanes.

Edrychwch , rwyf yn gwneud peth newydd; y mae'n tarddu yn awr; oni allwch ei adnabod?" (Eseia 43: 18-19)

Gwenda Richards

Coffâd

Mr Griffith Owen, Plas Maesincla (39 Y Glyn gynt)

Roedd Griff Owen yn wŵr cywir iawn a bu'n eithriadol o ffyddlon i'w briod a fu'n wael ac mewn gwendid ar hyd ei

hoes. Bu'n aelod ffyddlon o eglwys Iesu Grist yn Engedi ac yn Seilo. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd gwasanaethodd yn Burma, ac yn sicr bu'n dyst i ddigwyddiadu erchyll yno. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i chwaer Margaret a'i deulu oll yn eu colled gan dymuno nerth Duw iddynt yn eu galar a'u hiraeth.

Mrs Sheila Parry, Bwthyn, Yr Hwylfa, Lôn Ysgubor Wen

Ymfalchiai Sheila yn ei magwraeth yn Nhalysarn ble gweithiai ei thad fel chwarelwr. Gwraig ei milltir sgwâr oedd hi, yn mwynhau cwmni ei theulu a'i ffrindia. Mae'n wir dweud mai ei theulu a'i chartref oedd ei thrysor a bu'n gefn i Owen, Bethan a Gwyn ar hyd y blynyddoedd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu hiraeth o golli priod ffyddlon, mam addfwyn, nain a chwaer hoff.

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb o'r eglwys a fu'n wael yn ystod y mis diwethaf. Da yw deall bod Mrs Kitty Roberts, Arfryn, Ffordd Eryri yn gwella'n araf yn Ysbyty Eryri. Mae Mrs Awen Humphreys, Heol Edward yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd, ac yno hefyd y mae Mr Iorwerth Williams, Rhoslan, Sgwâr Uxbridge. Da yw deall bod Mrs Mair Evans, Gwynle, wedi gadael yr ysbyty a'i bod yn gwella ar ei haelwyd. Treuliodd Mrs Helen Jones, Bod Hyfryd, Ffordd Bangor a Mrs E.A. Williams, Noddfa, Ffordd Cae Garw, Rhosbodrual, gyfnod byr yn Ysbyty Gwynedd.

Mae Mr Emyr Wyn Jones, 1 Llys yr Orsedd, ar hyn o bryd yng Nghartref Nyrzio Cerrig yr Afon, ond yn

gobeithio cael dychwelyd adref yn fuan.

Croesawu Aelod Newydd

Bu'n bleser croesawu Mr John Walter Williams yn aelod yn Seilo. Bu'n flaenor ffyddlon a gweithgar yng nghapel Tegid y Bala gan weithredu fel ysgrifennydd yr eglwys am flynyddoedd, ac fe'i codwyd yn Llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd. Wrth ei groesawu'n gynnes i Seilo hyderwn y bydd yn ymgartrefu yn ein plith ac yn derbyn bendith wrth gyd addoli ac ymroi i amrywiol weithgareddau'r eglwys.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Mr Howel Roberts, Carreg Las, Cae Gwyn ar gael ei gynnwys ar restr anrhydeddau'r Frehines yn ddiweddar. Cyflwynir iddo y 'BEM - British Empire Medal' am ei gyfraniad diflino i elusennau ar hyd blynyddoedd. Mae wedi rhoi yn hael o'i amser i wasanaethu llawer o gymdeithasau elusennol yn lleol ac yn eu plith y mae Cymdeithas y Deillion a Chymdeithas Cŵn Tywys i'r Deillion, Cymdeithas y Bad Achub. Wrth ei longyfarch diolchwn iddo am ei holl lafur fel trysorydd eglwys Seilo.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchwn ieuenctid yr eglwys sydd wedi graddio yn ddiweddar. Dymunwn fendith iddynt i'r dyfodol.

Noson Goffi Culfor

Er gwaethaf y tywydd garw cafwyd Noson Goffi lwyddiannus yn y Culfor nos Wener 15 Mehefin a gwnaethpwyd elw o £1,196.10. Diolchir i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at lwyddiant y noson ac yn arbennig i Dr

Huw a Beryl Roberts am agor eu cartref ar gyfer y gweithgarwch. Diolch hefyd i Mrs Beryl Roberts ac i Mrs Edwina Morgan, llywydd ac ysgrifennydd Pwyllgor y Chwiorydd am y gwaith trefnu ac i'r trysoryddion Mrs Helen Jones a Mrs Gwenifer Roberts am eu cyfraniad hwythau.

Banc Bwyd

Bydd cyfle'r mis hwn i aelodau Seilo gefnogi 'Banc Bwyd Caernarfon' trwy lenwi'r bocs bwyd yng nghyntedd Seilo â bwydydd pwrpasol ar gyfer teuluoedd anghenus y dref. Yr Eglwys Bentecostaidd mewn cydweithrediad ag Eglwys Noddfa sy'n bennaf gyfrifol am weithredu'r cynllun yng Nghaernarfon, ond gwahoddir pawb i gyfrannu nwyddau neu rôdd ariannol. Canlyniad y dirwasgiad presennol yw gweld teuluoedd yn methu â chael deupen llinyn ynghyd a dyma gyfle i ni fel Eglwys Iesu Grist gynorthwyo yn ymarferol. Dyma'r nwyddau a dderbynnir:

Llefrith(UHT) / Siwgr (500g) / Cawl (Tin) / Saws Pasta / Tomatos (Tin) / Pwdin Ysbwng (Tin) / Grawnfwyd (Cereals) / Pwdin Reis (Tin) / Bagia Te a Choffi (Instant) / Tatws (Instant Mash) / Cig a Physgod (Tin) / llyisiau (Tin) / Ffrwythau (Tin) / Jam / Bisgedi

Bydd y bocs yng nghyntedd Seilo ar yr ail a'r trydydd Sul o bob mis (ond ddim yn ystod mis Awst). Caiff ei wagio unwaith y mis.

Lluniau

Mae lluniau gweithgareddau aelodau Seilo yn ymddangos yn rheolaidd ar wefan Henaduriaeth Arfon. Os oes unrhyw aelod yn gwrthwynebu i'w lun

ymddangos ar y rhyngrwyd, dylai ef neu hi gysylltu â'r gweinidog (676435)

Gweinidog:
Parchedig Gwenda Richards
Ffôn 676435

Golygydd:
Mrs Angharad Rhys Williams
Ffôn 674865